

Astudiaeth o Fudd Economaidd- Gymdeithasol

Canolfan Gelfyddydau Pontardawe



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

"Mae'r gwaith yma wedi rhoi Pontardawe yn ôl ar y map, mae'n wych"

Mae Canolfan Gelfyddydau Pontardawe (y Ganolfan neu CGP) yn ased diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd hirsefydlog ar gyfer Castell-nedd Port Talbot a Chwm Tawe ehangach. Yn yr astudiaeth hon o effaith economaidd-gymdeithasol, a gomisiynwyd gan Gyfeillion Canolfan Gelfyddydau Pontardawe (CCGP), a gyllidwyd gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT), ceir asesiad manwl o gyfraniad CGP yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, wedi'i ategu gan ddata presenoldeb atodol o 2023-24.

Canfyddiadau Allweddol

Hyb cymunedol gwerthfawr

Yn ôl tystiolaeth ansoddol o gyfweiliadau ac arolwg ar-lein a ddosbarthwyd yn eang, mawr y gwerthfawrogi'r Ganolfan Gelfyddydau gan drigolion lleol, ymwelwyr, sefydliadau partner a busnesau. Amlygodd y defnyddwyr bwysigrwydd y Ganolfan yn fan cymunedol croesawgar, cynhwysol a hygyrch. Nodwyd dro ar ôl tro fod cyfeillgarwch ac ymrwymiad y tîm staff yn ganolog i lwyddiant y Ganolfan, a hynny'n sail i bartneriaethau cryf ac ymddiriedaeth gymunedol barhaus.

Effaith economaidd sylweddol

Gwna Canolfan Gelfyddydau Pontardawe gyfraniad economaidd sylweddol at Gastell-nedd Port Talbot. Cynhyrcha'r Ganolfan weithgarwch economaidd uniongyrchol trwy gyflogaeth, gwariant gweithredol ac incwm o docynnau, gwerthiannau'r bar, a llogi lleoliad. Mae hefyd yn creu effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig trwy wariant cynulleidfaoedd mewn bwytaï lleol, gyda darparwyr trafnidiaeth a meysydd parcio, a thrwy effeithiau economaidd ehangach cyflogau staff a gwariant yn y gadwyn gyflenwi.

Cyfanswm yr effaith economaidd feintioledig ar gyfer 2022–23 yw £771,759, yn erbyn £150,000 o gyllid cyhoeddus gan CBSCNPT, gan arwain at 5.15 o enillion o fuddsoddiad (ROI). Felly, mae pob £1 a fuddsoddir yn y Ganolfan yn cynhyrchu £5.15 o werth economaidd i'r economi ranbarthol.

Effaith gymdeithasol gynyddol

Mae CGP yn chwarae rhan ystyrlon wrth wella lles, cydlyniant cymdeithasol, a chyfranogiad diwylliannol. Dengys tystiolaeth yr arolwg fod 85% o'r ymatebwyr wedi rhoi sgôr o 4 neu fwy i effaith y Ganolfan ar eu lles a'u bywyd cymdeithasol ar raddfa 0–6.

Mae gweithgareddau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, oedolion ag anghenion ychwanegol, a thrigolion hŷn yn arddangos rôl y Ganolfan wrth leihau ynysu cymdeithasol a darparu gwasanaethau hygyrch hanfodol.

Effaith y sinema newydd a'r ailddatblygu

Er nad agorodd y sinema tan yn ddiweddar, dengys y dystiolaeth gynnar frwdfrydedd cymunedol cryf, a 92% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud y byddai'r sinema newydd yn eu hannog i ymweld yn amlach. Soniodd busnesau lleol am fwy o ymwelwyr, ac mae adborth cynnar yn dangos effaith gadarnhaol ar gofrestriadau dosbarthiadau a defnyddio'r Ganolfan. Mae'r ailddatblygu wedi gwella ansawdd yr adeilad ac wedi gwella apêl CGP yn sylweddol yn gyrchfan ddiwylliannol. Byddem yn rhagweld ffigur cryfach o ran effaith economaidd os ailadroddir yr ymarfer hwn ymhén dwy flynedd eto.

Pwysigrwydd strategol a chyfleoedd yn y dyfodol

Mae'r Ganolfan yn cefnogi nodau Strategaeth Diwylliant a Thwristiaeth ehangach CBSCNPT ac mae ganddi botensial cryf i ehangu ei chyrhaeddiad trwy ddatblygu cynulleidfaoedd wedi'u targedu, gwirfoddoli gwell, dulliau marchnata wedi'u mireinio, a phartneriaethau dyfnach â busnesau lleol. Mae CCGP yn darparu model pwerus o ymgysylltu â'r gymuned y gellid ei ddyblygu mewn mannau eraill yn y Fwrdeistref.

Crynodeb Cyffredinol

Mae Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn darparu gwerth economaidd cryf, buddion cymdeithasol sylweddol, ac effaith ddofn ar y gymuned. Yn sgîl ei hailddatblygu'n ddiweddar, cryfhawyd ei chynaliadwyedd hirdymor ac fe'i sefydlwyd yn angor diwylliannol allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Dengys canfyddiadau'r asesiad hwn fod buddsoddiad parhaus yn y Ganolfan yn creu gwerth uchel am arian ac yn cefnogi cymuned leol ffyniannus, gynhwysol ac economaidd wydn.

2. CYFLWYNIAD

"Mae'n drawiadol iawn nawr, mor groesawgar, ac mae yno griw cyfeillgar o staff, maen nhw'n wych. Mae gen i fab anabl sy'n dipyn o gymeriad, ac mae wrth ei fodd yn dod yma gan fod pawb mor glên tuag ato. Byddaf bob amser yn cefnogi busnesau lleol."

Adroddiad yw hwn gan Deyton Bell a Counterculture ar gyfraniad economaidd-gymdeithasol Canolfan Gelfyddydau Pontardawe. Mae'r adroddiad yn asesu effaith economaidd-gymdeithasol allbynnau'r Ganolfan, yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol ac yn ysgogedig, gan ystyried effeithiau pandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw presennol a datblygiadau diweddar y Ganolfan Gelfyddydau gan gynnwys agor sinema newydd ar y safle.



Amcan yr adroddiad yw nodi'r cyfraniadau a'r dulliau presennol i wella'r celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe gyda'r bwriad o sicrhau ei buddion mwyaf posibl yn y dyfodol drwy gynhyrchu sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Diwylliant a Thwristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- Cryfhau ceisiadau cyllid a buddsoddi yn y dyfodol.
- Llywio cynlluniau busnes ar gyfer y Ganolfan.

3. CEFNDIR A NODAU'R ASTUDIAETH

"Mae'r dref wir yn ei hystyried yn fan cymunedol, a hynny mwy byth bellach, sy'n wych i'w weld"

Preswlydd lleol

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi cipolwg ar yr effaith economaidd-gymdeithasol y mae gweithgareddau a chyflenwi'r Ganolfan yn ei chynhyrchu i'r ardal leol a'r sector celfyddydau a chreadigol.

Mae Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn lleoliad diwylliannol amlbwrpas ym Mhontardawe, Castell-nedd Port Talbot, Cymru. Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n berchen arni. Ar ôl agor ym 1996, mae'r Ganolfan Gelfyddydau wedi gwasanaethu rhanbarth y De â rhaglenni eang gan gynnwys perfformiadau oedolion a phobl ifanc yn y Gymraeg a'r Saesneg, dawns, comedi, cerddoriaeth fyw, ffilm a rhaglen o glybiau, dosbarthiadau a chyfleusterau addysgol sy'n darparu ar gyfer pob oedran ac angen. Ei nod yw cyfoethogi bywydau pobl trwy gymryd rhan yn y celfyddydau ac mae'n cynnig man croesawgar, cynhwysol i bawb ei ddefnyddio. Ymhlith gwerthoedd CGP mae canolbwyntio ar bobl, a bod yn ddatblygiadol, yn gynhwysol ac yn arloesol.

Mae CGP yn lleoliad celfyddydau amlbwrpas. Ceir ynddi theatr/awditoriwm â 400 sedd gyda threfniant eistedd hyblyg, mannau stiwdio a stiwdios ymarfer/dawns, ystafelloedd cyfarfod/cynadledda, a bar a chaffi. Cwblhawyd ailddatblygiad gwerth £2 filiwn yn 2025, gyda sinema newydd 74 sedd gyda thafluniad modern, sain Dolby Atmos a seddi cyfforddus.



Caiff y Ganolfan gyllid craidd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ac fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Hefyd, caiff gyllid untro o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, CBSCNPT, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn hyb diwylliannol a chymdeithasol, sy'n fan ymgynnull i bobl o bob oedran. Cefnoga gynhwysiant cymdeithasol, yn enwedig trwy weithgareddau celfyddydol i bobl ag anghenion ychwanegol. Mae'r Ganolfan yn cynnal ymgysylltiad sylweddol â 100 o ddosbarthiadau, cynyrchiadau, gweithdai a chyfarfodydd mewn un mis.

Yn y cynllun busnes nodir yn benodol fod y sinema newydd ar y safle yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y Ganolfan ac i ddenu cynulleidfaoedd iau newydd. Mae'r ailddatblygiad hefyd yn cyd-fynd â nodau adfywio trefi ehangach. Mae'r Ganolfan megis angor diwylliannol sy'n helpu i sbarduno twristiaeth leol, ymwelwyr a gweithgarwch economaidd ym Mhontardawe.

Elusen sy'n cefnogi CGP yw Cyfeillion Canolfan Gelfyddydau Pontardawe. Mae ei 7 ymddiriedolwr a'i 120 o wirfoddolwyr yn cefnogi'r Ganolfan yn ymarferol, yn ariannol ac yn gymunedol. Maent yn codi arian trwy aelodaeth a lobïo i gefnogi datblygiad y Ganolfan. Byddant yn trefnu nosweithiau cymunedol ac yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli yn y Ganolfan ac yn gweithredu er ei budd gorau. Comisiynwyd yr Asesiad hwn gan CCGP, a ariennir gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac a gefnogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.



4. CWMPAS YR ASTUDIAETH

"Mae'n rhy gynnar i ddweud yn sicr, ond rydym yn gobeithio y bydd y sinema newydd a'r ganolfan well yn denu plant newydd i ddosbarthiadau bale, gan y bydd mwy o deuluoedd yn dod i'r sinema ac yn cael gwybod am y dosbarthiadau."

Arweinydd Dosbarth Bale

Mae'r asesiad hwn o effaith economaidd-gymdeithasol yn archwilio cyfraniad Canolfan Gelfyddydau Pontardawe at gymuned ac economi Castell-nedd Port Talbot.

4.1 Meysydd Dadansoddi

"Cyn gynted ag y cyrhaeddwn ni, fe wnaethom i gyd sôn mor hyfryd yw'r lle; mae'r cyfleusterau'n wych, mae'r AV yn gweithio'n fendigedig, mae'n wych i Bontardawe – byddwn yn bendant yn ei defnyddio eto."

Staff y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, a oedd wedi llogi'r lle theatr ar gyfer gweithdy i 40 o blant o bedair ardal Awdurdod Lleol.

Cwmpesir yn yr asesiad ddimensiynau economaidd a chymdeithasol effaith. Yn benodol, mae'r astudiaeth yn gwerthuso:

- **Effeithiau cyflogaeth a staffio**, gan gynnwys swyddi uniongyrchol a gefnogir gan y Ganolfan ac effeithiau economaidd cysylltiedig a ysgogwyd.
- **Cynhyrchu incwm**, gan gynnwys gwerthu tocynnau, refeniw rhaglenni, incwm bwyd a diod, a digwyddiadau cymunedol.
- **Gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol**, gan ddadansoddi maint gwariant gweithredol y Ganolfan yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r tu hwnt.
- **Effeithiau economaidd anuniongyrchol ac ysgogedig**, wedi'u modelu gan ddefnyddio lluosyddion economaidd sefydledig.
- **Gwariant ymwelwyr a chynulleidfaoedd**, gan gynnwys amcangyfrif o wariant mewn busnesau lleol fel bwytai, darparwyr trafnidiaeth, a pharcio.
- **Buddion cymdeithasol a chanlyniadau cymunedol**, gan gynnwys lles, cynhwysiant cymdeithasol, hygyrchedd, cyfranogiad diwylliannol, a chefnogaeth i grwpiau penodol fel plant ag anghenion addysgol arbennig.

- **Adolygiad o'r rhaglen**, gan archwilio ehangder a natur dosbarthiadau, gweithdai, dangosiadau, a gweithgareddau cymunedol.
- **Safbwyntiau rhanddeiliaid**, yn seiliedig ar gyfweiliadau ac ymatebion i'r arolwg gan ystod eang o ddefnyddwyr a phartneriaid.

4.2 Rhanddeiliaid wedi'u Cynnwys

Roedd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr asesiad yn cynnwys:

- Staff a rheolwyr Canolfan Gelfyddydau Pontardawe
- Cyfeillion Canolfan Gelfyddydau Pontardawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Busnesau lleol
- Grwpiau cymunedol a sefydliadau partner
- Buddiolwyr a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys teuluoedd, pobl ifanc, a grwpiau agored i niwed
- Aelodau o'r gynulleidfa a thrigolion lleol (trwy arolwg ar-lein)

4.3 Ffynonellau Data

Defnyddia'r astudiaeth gyfuniad o ffynonellau data cynradd ac eilaidd, gan gynnwys cyfrifon ariannol a data gweithredol, ffigurau presenoldeb a thocynnau, cyfweiliadau â rhanddeiliaid, data arolwg ar-lein, amserlenni rhaglenni a dosbarthiadau, setiau data economaidd sydd ar gael i'r cyhoedd, lluosyddion economaidd o safon y diwydiant ar gyfer modelu effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig.

4.4 Eithriadau

Cyfyngwyd cwmpas yr astudiaeth i'r effeithiau economaidd-gymdeithasol bendant sy'n digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid yw'r asesiad yn cynnwys effeithiau amgylcheddol na dadansoddiad ôl troed carbon, effeithiau adfywio hirdymor na rhagolygon y tu hwnt i 2023-2024, meincnodi cymharol â lleoliadau diwylliannol eraill, na dadansoddiad manwl o effeithiau twristiaeth rhanbarthol y tu allan i'r dalgylch uniongyrchol.

4.5 Cyfyngiadau

Dylid dehongli canfyddiadau'r astudiaeth yng nghyd-destun y cyfyngiadau canlynol:

- Mae rhywfaint o'r dystiolaeth, yn enwedig o gyfweiliadau â rhanddeiliaid ac ymatebion i'r arolwg, wedi'i hunan-adrodd a gall adlewyrchu canfyddiadau goddrychol.

- Mae'r modelu economaidd yn dibynnu ar luosyddion safonol y diwydiant, nad ydynt efallai'n llwyr grisialu amodau economaidd lleol penodol.
- Nid yw rhai canlyniadau cymdeithasol anuniongyrchol, megis gwelliannau lles tymor hwy, yn gwbl fesuradwy o fewn cwmpas yr astudiaeth hon.
- Mae'r asesiad yn seiliedig yn bennaf ar flwyddyn o wybodaeth ariannol, gan gyfyngu ar y gallu i nodi tueddiadau neu amrywiadau o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Oherwydd amseru cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r astudiaeth, pan ddechreuodd ein gwaith roedd y gwaith i greu sinema a chaffi newydd yn mynd rhagddo, ac agorwyd y mannau hyn i'r cyhoedd yn ystod yr astudiaeth. O ganlyniad, mae nifer sylweddol o sylwadau ar ardaloedd newydd yr adeilad ond prin yw'r data economaidd i ddangos ei effaith. Cwmpesir ein hawgrymiadau ar gyfer deall yr effaith hon yn yr adrannau ar argymhellion ar gyfer y dyfodol.
- Ar hyn o bryd, nid oes asesiadau economaidd-gymdeithasol uniongyrchol tebyg o'r raddfa hon na'r dyfnder methodolegol hwn o fewn sector celfyddydau Cymru nac ar gyfer canolfannau celfyddydau rhanbarthol tebyg yn y DU. Fel y cyfryw, mae'r astudiaeth hon yn ddarn arloesol o waith. Mae'n sefydlu fframwaith cadarn a all lywio gwerthusiadau o leoliadau diwylliannol yn y dyfodol ac yn darparu meincnod sy'n dod i'r amlwg ar gyfer asesu gwerth economaidd a chymdeithasol cyfunol seilwaith y celfyddydau.



5. Methodoleg

"Rwyf wedi bod i'r caffi deirgwaith yn yr wythnos ers iddo agor - a byddaf yn cadw dod yn ôl. Rwyf wrth fy modd â'r hwyl gyda'r staff hyfryd."

Un o gwsmeriaid y caffi

Mae'r asesiad hwn o effaith economaidd-gymdeithasol yn mabwysiadu dull cymysg sy'n cyfuno technegau modelu ansoddol, meintiol ac economaidd. Ceir dwy brif elfen i'r fethodoleg: asesu'r effaith gymdeithasol ac asesu'r effaith economaidd.

5.1 Asesu'r Effaith Economaidd

Mae'r asesiad economaidd yn gwerthuso sut mae CGP yn cyfrannu at yr economi leol trwy ei gweithrediadau, gwariant ymwelwyr, a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys:

- **Gwariant Gweithredol ac Effeithiau Cadwyn Gyflenwi Leol:**
Dadansoddwyd data gwariant blynyddol y Ganolfan i asesu gwariant uniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi leol a rhanbarthol. Amcangyfrifwyd effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig gan ddefnyddio lluosyddion economaidd safonol i adlewyrchu ail-wario incwm yn yr economi.
- **Effeithiau Cyflogaeth a Chyflog:**
Defnyddiwyd data cyflog staff i bennu effeithiau cyflogaeth uniongyrchol ac effeithiau ysgogedig cysylltiedig sy'n deillio o wariant staff yn yr ardal leol.
- **Cynhyrchu Incwm:**
Archwiliwyd referniw o werthu tocynnau, digwyddiadau, a gwerthu bwyd a diod ym mar y Ganolfan i fesur cyfraniad uniongyrchol y Ganolfan at yr economi leol.
- **Gwariant Ymwelwyr:**
Aseswyd gwariant anuniongyrchol ychwanegol a gynhyrchir gan ymweliadau â'r theatr, gan gynnwys gwariant ar fwytai cyfagos, tacsis, maes parcio, a gwasanaethau lleol eraill. Cafodd y ffigurau hyn eu hintegreiddio i'r model economaidd ehangach.
- **Cyllid Cyhoeddus ac Asesu Gwerth am Arian:**
Cafodd cyllid a gafwyd gan y cyngor lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru ei gynnwys yn y dadansoddiad. Cyfrifwyd Enillion ar Fuddsoddiad (ROI) i asesu'r gwerth a grëwyd am bob punt o fuddsoddiad cyhoeddus.

5.2 Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol

Ffocws y dadansoddiad cymdeithasol yw deall sut mae Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn cyfrannu at les cymunedol, ymgysylltu â diwylliant, a chynhwysiant cymdeithasol. Cynhaliwyd yr ymchwil hon trwy:

- Gyfweliadau personol ag ystod eang o ddefnyddwyr a rhanddeiliaid gan gynnwys deuddydd o ymweliadau â'r ganolfan i gwrdd â phobl sy'n mynychu amrywiaeth o grwpiau a gynhelir yn CGP, yn ogystal â defnyddwyr y caffi, busnesau lleol. a phobl yn mynd heibio'r tu allan.
- Dylunio a chyflwyno arolwg ar-lein (wedi'i ddosbarthu trwy ystod o sianeli CCGP a CBSCNPT) yn ogystal ag yn ystod ymweliadau ymgynghorwyr a thrwy restr gysylltiadau a sianeli digidol Counterculture ei hun. Cafodd yr arolwg hwn 186 o ymatebion i gyd.

6. CANFYDDIADAU

Gwerthfawrogir y Ganolfan yn helaeth ledled y gymuned leol, ac mae'n annwyl iawn i gynulleidfaoedd ond hefyd i randdeiliaid eraill sy'n defnyddio'r adeilad:

"Rydym yn dod yma ers 25 mlynedd, eleni yw ein pen-blwydd. Rydym wrth ein boddau'n dod yma ac wedi gwylio rhai o aelodau'r grŵp yn mynychu bob blwyddyn, un o 15 oed sydd bellach yn 40. Mae'r Ganolfan yn amhrisiadwy, a'r holl ddiweddariadau'n wych. Mae'r staff i gyd mor gyfeillgar a chymwynasgar; fe wnaethon nhw'n siŵr ein bod ni'n gallu cynnal y grŵp gymaint â phosibl trwy gydol yr holl waith, a dim ond pythefnos wnaethon ni ei methu oherwydd gwaith trydanol. Mae'r grŵp yn edrych ymlaen yn fawr at wneud ei sioe Carolau Nadolig ar 24 Tachwedd."

Staff Addysg Oedolion Cymru

Caiff y Ganolfan ei defnyddio a'i charu gan bobl sy'n byw o amgylch yr ardal leol i gyd, yn enwedig ar hyd a lled Cwm Tawe, ond hefyd o fannau pellach i ffwrdd tuag at y gogledd, y gorllewin (Sir Abertawe) a'r dwyrain (tuag at Bort Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr).

Yn ôl defnyddwyr y Ganolfan, caiff gryn dipyn o effaith ar eu hiechyd a'u lles, a chredant hefyd ei bod yn bwysig i'r gymuned a'r economi ehangach, gan gynnwys iechyd y Stryd Fawr leol:

"Rydym wedi galw heibio ers yr adnewyddu, ac yn meddwl bod y lle'n edrych yn fendigedig. Cawsom lawer o fasnach yn ystod y gwaith adeiladu, a llawer o'r contractwyr yn ein caffi bob dydd, ac rydym wedi sylwi bod mwy o bobl yn dod i Bontardawe ers agor y ganolfan yn llawn."

Caffi Little Trams

Mae defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn canmol tîm staff y Ganolfan i'r cymylau, sy'n amlwg yn allweddol i ddatblygiad a chynaliadwyedd partneriaethau'r ganolfan. Rhaid llongyfarch CBSCNPT a'r tîm rheoli yn y Ganolfan hefyd am greu awyrgylch gwaith cadarnhaol iawn sy'n cyfrannu at brofiadau gwych i gwsmeriaid a phartneriaid ac at gadw staff.

"Mae yma griw gwych o staff, a phawb ohonom wrthi'n gwneud y gwahanol dasgau ac wedi gweithio trwy'r cyfnod agor a aeth yn ddiffwdan - rydw i wrth fy modd yn gweithio yma."

Aelod o Staff

"Mae'r tîm staff yn anhygoel ac wedi helpu'n fawr i wneud yn siŵr bod y dosbarthiadau'n gallu parhau trwy'r holl waith adeiladu."

Pamela Miller Ballet

6.1 Canfyddiadau Economaidd

Cyflwynir cyfraniad economaidd Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn yr adran hon. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar gyfrifon ariannol y Ganolfan, data gweithredol, rhagdybiaethau ymddygiad ymwelwyr, ac effeithiau lluosydd economaidd safonol i amcangyfrif yr effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig a gynhyrchir ar economi leol Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn cynnwys gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynulleidfia ac yn darparu asesiad o werth am arian trwy ddull Enillion ar Fuddsoddiad.

6.1.1 Cyfraniad Economaidd Uniongyrchol - Cyflogaeth a Chyflogau

Cyflogau staff y Ganolfan yw un o'i phrif gyfraniadau economaidd uniongyrchol. Mae'r cyflogau hyn yn cynhyrchu gwerth economaidd trwy gyflogaeth uniongyrchol ond hefyd trwy wariant gweithwyr yn yr economi leol. Cymhwyswyd lluosydd economaidd i wariant cyflog i amcangyfrif yr effaith economaidd ehangach, gan grisialu effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig sy'n gysylltiedig â defnydd gweithwyr ac ymhellach i fyny cadwyn gyflenwi'r Ganolfan yn yr economi leol.

6.1.2 Cyfraniad Economaidd Uniongyrchol - Gwariant yn y Gadwyn Gyflenwi Lleol

Cyfranna gwariant gweithredol y Ganolfan yn uniongyrchol at fusnesau lleol trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae gwariant ar gynnal a chadw, offer, glanhau, marchnata a gwasanaethau proffesiynol yn cefnogi hyfywedd busnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r trafodion hyn hefyd yn dwyn buddion eilaidd wrth i gyflenwyr lleol ail-wario refeniw yn yr economi ranbarthol.

6.1.3 Cyfraniad Economaidd Uniongyrchol - Ffrydiau Incwm a Gynhyrchir

Cynhyrchir nifer o ffrydiau incwm gan Ganolfan Gelfyddydau Pontardawe sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ei chynaliadwyedd ariannol a'r economi ehangach:

- Gwerthu tocynnau ar gyfer perfformiadau, dangosiadau sinema, a digwyddiadau
- Incwm bwyd a diod o'r bar ar y safle
- Ffioedd llogi ystafelloedd a llogi offer
- Refeniw gweithredol amrywiol

Mae'r ffynonellau incwm hyn yn cefnogi gweithrediad ac ailfuddsoddiad parhaus, gan ddenu ymwelwyr sy'n cynhyrchu sgil-effaith economaidd bellach.

6.1.4 Gwariant Anuniongyrchol Ymwelwyr – Gwariant ar Drafnidiaeth

Mae ymwelwyr â CGP yn cynhyrchu gweithgarwch economaidd eilaidd sylweddol ym Mhontardawe a'r cylch. Yn seiliedig ar ragdybiaethau ymddygiad cynulleidfia, mae'r dadansoddiad yn ystyried nifer o gategoriâu o wariant anuniongyrchol:

Er enghraifft, gwariant ar dacsis, sydd o fudd uniongyrchol i weithredwyr tacsis lleol ac yn cefnogi cyflogaeth gysylltiedig. Gwnaethpwyd rhagdybiaethau craidd ar fynychwyr y Ganolfan yn defnyddio hyn fel llwybr i'r Ganolfan. Yn ogystal, priodolir rhywfaint o

wariant i ddefnydd ceir preifat, gan gynnwys ffioedd parcio ceir a chostau tanwydd, gan gyfrannu ymhellach at weithgarwch economaidd lleol.

6.1.5 Gwariant Anuniongyrchol Ymwelwyr - Gwariant ar Letygarwch a Bwyta

Mae gan CGP ran mewn sbarduno'r galw am fusnesau lletygarwch cyfagos. Gwnaeth yr asesiad amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd i ganfod y cysylltiad rhwng defnyddio bwyta a mynychu'r Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn darparu llif incwm trwy gydol y flwyddyn i'r bwyta lleol. Amlyga'r patrwm hwn o wariant rôl y Ganolfan yn sefydliad angori sy'n ysgogi gweithgarwch economaidd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

6.1.6 Effeithiau Ysgogedig o Ddosbarthiadau, Sesiynau a Gweithdai

Cynhelir yn y Ganolfan amrywiaeth o ddosbarthiadau, gweithdai, rhaglenni celfyddydau cymunedol, a sesiynau cymorth, gan gynnwys gweithgareddau a gynlluniwyd i blant ag anghenion addysgol arbennig, grwpiau perfformio, a sesiynau sgiliau creadigol. Ynghyd â gwerth cymdeithasol, mae'r rhaglenni hyn yn creu buddion economaidd mesuradwy.

Adlewyrcha'r effeithiau ysgogedig o'r Dosbarthiadau, Sesiynau a Gweithdai gyfraniad economaidd ehangach rhaglenni diwylliannol a chymunedol y tu hwnt i drafodion ariannol uniongyrchol.

6.1.7 Tabl Crynhoi'r Effaith Economaidd

Ffrwd Effaith	Uniongyrchol	Anuniongyrchol	Ysgogedig	Cyfanswm Effaith
Gwariant iawndal staff sy'n creu effeithiau gwariant aelwydydd lleol	£250,838.00			
Gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol	£37,725.00			
Tocynnau i berfformiadau/ dangosiadau ffilm	£222,034.00			
Gwerthu bwyd a diod yn y lleoliad	£62,007.00			
Incwm gweithredol o logi lleoliad a rhentu offer gan ddefnyddwyr allanol	£34,327.00			
Gwariant ymwelwyr ar barcio lleol sy'n gysylltiedig ag ymweliadau â'r lleoliad		£4,961.10		
Gwariant ymwelwyr sy'n gysylltiedig â defnyddio cerbydau preifat		£23,400.00		
Gwariant ymwelwyr oddi ar y safle ar fwyd a diod mewn busnesau lletygarwch lleol		£33,696.00		
Gwerth rhaglenni cymdeithasol ac addysgol			£102,771.00	
CYFANSWM	£606,931.00	£62,057.10	£102,771.00	£771,759.10

6.1.8 Gwerth am arian ac enillion ar fuddsoddiad


Yn y dadansoddiad economaidd, caiff cyfanswm y buddion economaidd a gynhyrchir ei gymharu â chyfraniadau cyllid a gafwyd gan CBSCNPT sef £150,000. Yr Enillion ar Fuddsoddiad sy'n deillio o hynny yw 5.15, felly am bob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddir yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe ceir £5.15 o werth economaidd i'r economi leol. Dyma enillion cadarnhaol iawn sy'n dangos effeithiolrwydd y Ganolfan yn trosi buddsoddiad cyhoeddus a sefydliadol yn ganlyniadau economaidd ystyrlon.

6.1.9 Data Economaidd yr Arolwg


Mae data'r arolwg yn atgyfnerthu'r data economaidd caled. Gofynnwyd i'r ymatebwyr asesu arwyddocâd CGP ar gyfer Stryd Fawr ac Economi Pontardawe ac ar gyfer Denu Ymwelwyr i Bontardawe ar raddfa o 1 (ddim yn bwysig) i 6 (hynod bwysig).

Dengys y siartiau bar isod fod ymatebwyr yn credu bod y Ganolfan yn chwarae rhan bwysig yn economi leol ac ymwelwyr y dref:

i) Stryd Fawr ac Economi Pontardawe



ii) Denu ymwelwyr i Bontardawe



Roedd sylwadau perchnogion busnesau lleol hefyd yn cefnogi'r safbwynt hwn, ac un yn dweud mai CGP yw "angor y Stryd Fawr" ac un arall yn dweud bod "y Ganolfan Gelfyddydau yn gaffaeliad mawr i'r dref." Yn ddiweddar, mae Gwesty'r Dilwyn Arms wedi dechrau gwneud cynigion arbennig prydau bwyd cyn ac ar ôl sioeau i fanteisio ar y bobl ychwanegol a fydd yn dod i'r sinema. Mae busnesau lleol eraill hefyd wrthi'n hyrwyddo'r Ganolfan:

"Rydyn ni'n dod i Bontardawe, am y tro cyntaf ers blynyddoedd, i fynd at yr optegydd, a dyma ni'n gofyn iddyn nhw ble i fynd am baned o goffi. Fe awgrymon nhw Ganolfan Gelfyddydau Pontardawe gan ei bod ar ei newydd wedd. Mae'n hwb mawr i'r dref - a byddwn yn ôl cyn hir i fynd i'r sinema."

Pâr lleol

6.2 Buddion Cymdeithasol Canolfan Gelfyddydau Pontardawe

6.2.1 Effaith y Sinema Newydd

"Pe bawn i'n byw ym Mhontardawe, byddwn i'n falch iawn o gael hwn yn fy nghymuned."

Arweinydd busnes sy'n ymweld

Fel y nodwyd uchod, roedd y sinema ar agor ers llai na mis ar adeg ein hymweliadau a'n gwaith arolygu, felly mae'n rhy fuan i ddeall effaith ariannol y sinema ar y Ganolfan neu'r effaith economaidd ehangach. Fodd bynnag, gwyddom o'r gwaith ansoddol yn siarad ag ymwelwyr a rhanddeiliaid fod y cyfleusterau newydd yn cael eu hedmygu'n fawr a bod ansawdd y gorffeniadau a'r awyrgylch cyffredinol yn cael eu canmol i'r cymylau:

"Mae'r dref wir yn ei hystyried yn fan cymunedol, a hynny'n fwy byth bellach, sy'n wych i'w weld. Rydyn ni'n dod ers blynnyddoedd ond oherwydd y gwaith newydd byddwn yn siŵr o ddod yn amlach byth. Rydyn ni wrth ein bodd â'r addurno ac allwn ni ddim aros iddyn nhw ddangos hen ffilmiau ar y sgrin fawr – fydd ddim angen i ni deithio i Abertawe i fynd i'r sinema mwyach!"

Pâr lleol

"Rwy'n credu ei bod yn fendigedig, yn dipyn o gaffaeliad i'r dref; maen nhw wedi gwneud gwaith ardderchog. Fe ddes i i'r theatr ddydd Sadwrn diwethaf ac rwyf wedi cael tocyn i ddod i'r sinema yr wythnos nesaf. Rwy'n dod yn rheolaidd beth bynnag ond byddaf yn dod yn amlach byth nawr oherwydd y caffi. Mae'r sinema am bris rhesymol yn bendant yn gwneud gwahaniaeth mawr."

Preswlydd lleol

"Waw, mae'r lle'n edrych yn anhygoel, mae'n anodd credu mai'r un lle sydd yma."

Pâr ifanc yn cerdded i mewn


Mae partneriaid sy'n cyflwyno gweithgareddau yn y Ganolfan eisoes yn gweld effeithiau cadarnhaol o'r gwaith a wnaed, gydag un arweinydd dosbarth dawns yn sôn mai CGP bellach yw'r prysuraf o'r tri safle lle mae'n hyfforddi:

"Mor braf yw gweld y ganolfan yn cael y cariad y mae'n ei haeddu. Rydw i eisoes yn gweld effaith ar niferoedd fy ngrwpiau, ac wedi cael fy niferoedd gorau erioed y tymor hwn, ac 87 wedi cofrestru yn hytrach na'r nifer arferol. Roedd arfer bod 15 o blant yn fy nosbarth cyntaf, sydd bellach yn cynnwys 31 sy'n anhygoel. Rwy'n siŵr mai cyfleusterau newydd, brafiach y ganolfan sy'n gyfrifol am hyn."

Arweinydd Grŵp Dawns MODE

Awgryma'r data meintiol hefyd y bydd agor y sinema yn cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr a'r incwm yn y Ganolfan.

I gwestiwn yr arolwg "a fydd agor y sinema newydd yn eich annog i ymweld â Chanolfan Gelfyddydau Pontardawe yn amlach?" cafwyd 186 o ymatebion, a 127 (68%) yn dweud y bydd y sinema newydd yn bendant yn gwneud iddynt ymweld yn amlach, a 24% yn dweud y bydd yn fwy na thebyg (cyfanswm: 92%).



Rydym yn argymhell profi hyn dros y flwyddyn nesaf, trwy'r data ariannol a thrwy gwestiwn arolwg sy'n gofyn a yw pobl wedi ymweld yn amlach yn ystod y 12 mis diwethaf nag oeddent o'r blaen (gweler Argymhellion, isod).

"Hir oedd yr aros amdani, ond mae'n werth y byd."

Un o griw o ffrindiau yn y caffi-bar

6.2.2 Iechyd a Lles

"Mae fy merch wrth ei bodd yn dod yma bob wythnos"

Tad yn y grŵp cyswllt cymunedol

Ceir mwyfwy o dystiolaeth ymchwil o safon sy'n dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a'u mynychu yn dda i iechyd a lles, gan gynnwys:

- Daw adolygiad cwmpasu 2019 Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o dros 3,000 o astudiaethau (a llawer ohonynt o'r DU) i'r casgliad y gall cymryd rhan yn y celfyddydau helpu i *atal* salwch, *hyrwyddo* iechyd da, a *chefnogi triniaeth* ar draws cwrs bywyd, o iechyd meddwl amenedigol i ofal dementia. (ncch.org.uk)
- Mae dadansoddiadau hydredol mawr yn y DU (e.e. Grŵp Ymchwil Bioymddygiadol Cymdeithasol UCL) yn dangos bod cyfranogiad celfyddydol a diwylliannol aml yn gysylltiedig â gwell boddhad bywyd ac ansawdd bywyd, a llai o berygl iselder a gorbryder, hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer incwm, addysg ac iechyd sylfaenol. ([SBRG](#))
- Mae adolygiadau dystiolaeth ar gyfer What Works Centre for Wellbeing a synthesisau cysylltiedig "diwylliant, chwaraeon a lles" yn canfod gwelliannau cyson yn y tymor byr i ganolig mewn lles goddrychol o gymryd rhan mewn cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol, amgueddfeydd a threftadaeth, gydag effeithiau arbennig o gryf i bobl sy'n cychwyn afiechyd meddwl. ([Prifysgol Brunel](#))
- Mae astudiaethau carfan y DU ac Ewrop yn dangos bod cyfranogiad diwylliannol rheolaidd yn gysylltiedig â gwell iechyd cyffredinol, llai o eiddilwch, llai o gyfyngiadau mewn gweithgareddau bywyd pob dydd, llai o boen cronig a llai o risg o ddatblygu dementia a marwolaethau cynamserol mewn oedolion hŷn. ([Cyngor Celfyddydau Lloegr](#))

Yn hanfodol, dengys astudiaethau fod cyfranogiad (ac felly manteision) yn anghyfartal ac y gall prosiectau lleol a gyd-gynhyrchwyd, o'r math a gynrychiolir gan y gwaith yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe, wella sgoriau lles meddyliol yn sylweddol a helpu i gau bylchau lles (whatworkswellbeing.org).

Mae natur buddion iechyd, sy'n cronni'n fesuradwy i raddau helaeth ar lefel poblogaeth, yn golygu ei bod yn amhosibl i leoliad bach fel CGP ddangos effaith feintiol ar ddisgwyliad oes, dyweder. Fodd bynnag, gofynnodd ein harolwg i'r ymatebwyr raddio eu barn eu hunain am yr effaith a gafodd y ganolfan ar eu lles a'u bywyd cymdeithasol, gyda chanlyniadau trawiadol.

Ar raddfa o 0 i 6 (dim effaith i effaith fawr) y sgôr ganolrifol oedd 5 a'r sgôr foddol oedd 6 (65 o 170 – 38.2%). Rhoes 85% o'r ymatebwyr sgôr o 4 neu uwch i effaith y Ganolfan. Ar gyfer cyfranogwyr yr arolwg, mae CGP yn cael effaith oddrychol sylweddol ar y materion hyn ac, o ystyried y cysylltiadau cryf rhwng lles goddrychol ac iechyd meddwl a chorfforol, mae'n debygol bod yr arbedion i rannau eraill o'r sector cyhoeddus trwy fuddion lles yn fwy na'r cymhorthdal cyhoeddus i weithredu'r Ganolfan.

Datgelodd ein cyfweiliadau personol hefyd fod defnyddwyr yn teimlo'n gadarnhaol iawn am effaith y Ganolfan ar eu bywydau. Mae'r sylwadau isod yn ddetholiad bach o'r 20 o fynychwyr grŵp Drama Dysgu Oedolion Cymru:

- "Maen nhw wedi gwneud gwaith da; rwy'n ei hoffi yma" - Gerald
- "Mae'r sinema'n posh iawn" - Katy
- "Mae'n berffaith!" - Catrin
- "Rwy'n hoff iawn o'r adeilad" - Adam
- "Rwy'n mwynhau dod yma bob wythnos ar ddydd Llun" - Matthew
- "Rwy'n hoffi gwneud fy sioeau drama yma, mae'r adeilad yn edrych yn hyfryd a'r seddi yn y sinema yn gyfforddus" - Tim

Mae aelodau staff wedi sylwi bod mwy o bobl ar eu pennau eu hunain yn mynychu ers i'r gwaith gael ei gwblhau a dywedwyd bod y newidiadau'n golygu bod ystod ehangach o bobl yn teimlo'n gyfforddus yn y lle.

"Rwyf wedi galw am goffi i fynd heddiw, ond byddaf yn ôl!"

Cwsmer caffi

6.2.3 Gwirfoddoli

Arweinir grŵp CCGP yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ac mae'n darparu model ardderchog ar gyfer cymuned yn ymgysylltu â lleoliad celfyddydau a weithredir gan Awdurdod Lleol. Rydym yn argymhell bod CBSCNPT yn ystyried a ellir ailadrodd agweddau ar lwyddiant CCGP mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref yn rhan o'r Strategaeth Gelfyddydau sydd ar ddod.

Yn rhan o'r arolwg ar-lein, nododd 24 o ymatebwyr i gyd y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyfrannu eu syniadau, eu sgiliau neu eu straeon i CGP a throsglwyddwyd eu manylion i CCGP eu dilyn. Credwn y gall mwy o wirfoddoli gynnig cyfleoedd i'r Ganolfan wella gwasanaethau a chynyddu incwm am gost gymharol isel, yn ogystal â darparu buddion iechyd a lles i'r gwirfoddolwyr.

6.2.4 Cyfleoedd i Gynhyrchu Incwm ac Amrywio Cynulleidfa

Awgryma ein hymchwil y daw'r cyfleoedd cynhyrchu incwm cryfaf o ehangu cymedrol y gynulleidfa bresennol a chynyddu gwariant y pen.

Mae proffiliau ymatebwyr yr arolwg, sy'n adlewyrchu proffiliau cynulleidfa cyffredinol, sy'n tueddu at gynulleidfaoedd hŷn, yn cynrychioli grŵp â lefelau rhesymol o incwm gwario ac amser a pharodrwydd i'w wario ar wasanaethau diwylliannol o safon a nwyddau cysylltiedig.

Bydd cynyddu prisiau tocynnau ychydig yn fwy na chyfradd chwyddiant, yn enwedig ynghyd â chynigion da i annog pobl i wario yn y caffi-bar, yn debygol o gael ei oddef yn dda a gall helpu'r Ganolfan.

Mae grŵp CCGP yn werthfawr i'r Ganolfan a dylid ystyried ffyrdd y gellid ehangu ei fanteision aelodaeth i annog twf pellach y grŵp. Gallai cynyddu ffioedd aelodaeth i £15 neu £20, ynghyd â gostyngiad o 10% yn y caffi-bar efallai, godi swm sylweddol. Sylwer-Dylai CCGP sicrhau bod unrhyw effaith budd o'r fath ar gymhwysedd Cymorth Rhodd ffioedd aelodaeth yn cael ei gwirio cyn bwrw ymlaen.

Er bod y gwaith arolwg personol ac ar-lein wedi cynhyrchu rhai sylwadau negyddol yn ymwneud â phrisiau yn y caffi-bar, canfu ein hymchwyl fod prisiau'n debyg i leoliadau sinema eraill o safon yn genedlaethol, ac i gynigion tebyg eu maint ym Mhontardawe. Am ei fod yn fusnes sy'n eiddo i'r cyhoedd, mae'n bwysig nad yw'r lleoliad yn tanseilio prisiau busnesau lleol yn annheg, a chredwn fod y strategaeth brisio bresennol yn gywir.

Mae busnesau lleol yn gryf o blaid gwaith y Ganolfan ac yn ffynhonnell naturiol o gefnogaeth. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn fach ac yn annhebygol o allu cynnig llawer o gymorth ariannol. Dylech ystyried cyfleoedd eraill ar gyfer partneriaeth fusnes fel:

- Cyfleoedd marchnata i fusnesau lleol hysbysebu yn y sinema yn ystod yr hysbysluniau.
- Traws-hyrwyddo gyda busnesau lleol – megis eu hannog i gynnig gostyngiad o 10% i bobl sy'n dod i fwyta gyda thocynnau ar gyfer sioe y noson honno, gan draws-hysbysebu ar bosteri a thaflenni yn y bwyty a'r sinema.
- Marchnata'r sinema, y theatr, yr ystafell fwrdd, a mannau eraill yn y Ganolfan i fusnesau lleol fel lleoedd delfrydol ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau yn ôl eu hanghenion.
- Cynnal digwyddiad bwrdd gron Busnes Pontardawe blyneddol i drafod eu hymgysylltiad â'r cynnig celfyddydau a diwylliant ac arddangos rhai o'r gweithgareddau o fudd i'r dref sy'n digwydd yn y Ganolfan.

Mae CBSCNPT yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i ennill cyllid y sector cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau a diwylliant. Mae bodolaeth CCGP yn creu cyfleoedd ychwanegol iddo, fel elusen gofrestredig, wneud ceisiadau am grantiau llai i ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n cefnogi elusennau cofrestredig yn unig. Rydym yn argymhell bod CCGP yn gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (<https://www.nptcvs.wales/>) i nodi rhestr o gyllidwyr o'r fath gan ddefnyddio mynediad y Cyngor hwnnw at Gronfeydd ar-lein neu gronfeydd data tebyg o wneuthurwyr grantiau.

Mae'r Ganolfan eisoes yn gwasanaethu cynulleidfaoedd sy'n fras gynrychioli ei chymuned er, fel llawer o sefydliadau diwylliannol, mae ei chynulleidfaoedd, ar gyfartaledd, yn hŷn ac yn fwy benywaidd na'r boblogaeth. Mae'n amlwg bod lle ar gyfer mwy o waith wedi'i dargedu at bobl ifanc, gan adeiladu ar waith presennol y Ganolfan, yn enwedig i blant a phobl ifanc ag amrywiaeth o anghenion ychwanegol.

Fodd bynnag, ni welwn dystiolaeth o alw enfawr am newid mawr ym mhwyslais gwaith a chynulleidfaoedd y Ganolfan a byddem yn cynghori canolbwyntio ar ddatblygu cynulleidfa ymhlith grwpiau sy'n 'gyfagos' i gynulleidfaoedd presennol – er enghraifft, o ystyried bod llawer o fenywod hŷn yn mynychu'r Ganolfan, a allai rhaglenni ffilmiau gynnwys ffilmiau ymladd ac antur clasurol a allai ddenu eu gwŷr a'u partneriaid? Bydd dull cynyddol felly'n adeiladu niferoedd cynulleidfa heb ddieithrio cwsmeriaid presennol neu heb fod angen dulliau a rhaglenni tra newydd a fyddai'n creu mwy o risg artistig ac ariannol.

Cymer y Ganolfan ran weithredol yn natblygiad Strategaeth Gelfyddydau newydd CBSCNPT. Credwn y bydd hyn yn helpu i nodi cynulleidfaoedd heb eu gwasanaethu'n ddigonol y mae arnynt angen mwy o weithgareddau a rhaglenni ar draws y Fwrdeistref, ac mae CGP mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain ar agwedd neu ddwy ar hyn, heb orfod ceisio darparu'r cyfan ar ei phen ei hun.

6.2.5 Beth mae pobl yn ei ddweud

Yn ogystal â'r sylwadau uchafbwyntiau sy'n britho'r adroddiad hwn, mae adborth arall gan staff, defnyddwyr y ganolfan, pobl leol, a phobl yn mynd heibio y bu inni gyfarfod â hwy'n bersonol dros ddeuddydd o ymweliadau â'r Ganolfan Gelfyddydau a busnesau lleol yn cynnwys:

"Mae rhieni yn arbennig yn mwynhau'r lle i gael paned tra bod y plant yn y dosbarthiadau."

"Cydweithiwyd yn dda â ni fel staff yn ystod dylunio a gosod y gwaith adeiladu a buon ni'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau."

"Mae'n hyb cymunedol go iawn ac yn gaffaeliad i Bontardawe gan fod cymaint o'r hen sinemâu fel Clydach bellach wedi mynd."

"Dechreuais weithio yma ddeng mlynedd yn ôl ac roedd sibrydion y gallai'r ganolfan gau, felly mae ei gweld yn tyfu ac yn ffynnu yn anhygoel."

"Mae'r ganolfan o fudd mawr i'r dref."

"Mae cael y bar newydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr pan fydd digwyddiadau byw – arferai fod yn anodd gyda'r un bar bach yn aml yn achosi tagfa - nawr mae'n llawer haws."


"Rydyn ni i gyd yn gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd; rydym fel teulu bach."

"Mae'r lle yn hyfryd ac wedi'i wneud yn braf, ac rwy'n mawr obeithio y bydd llawer o bobl yn ei gefnogi mwy nawr."


"Rydw i'n dod i'r ganolfan ers dros 40 mlynedd - wedi bod i'r sinema, sioeau, dramâu, dosbarthiadau crefft, arddangosfeydd, mae'r plant wedi dod i ddosbarthiadau dawns, neuadd snwcer. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddod i'r sinema yr wythnos nesaf; byddaf yn dod ar fy mhen fy hun ac rwy'n gwybod y byddaf yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus."

"Waw, mae hyn yn anhygoel! Alla i ddim aros i ddod i'r sinema; byddaf yma'r wythnos nesaf!"


"Roeddwn i'n arfer gweithio yma yn y 1990au. Mae llawer wedi newid ers hynny – a'r rhan fwyaf er gwell! Rydw i'n dod i'r sinema gyda fy wyrion sydd yn eu harddegau ddydd Gwener am y tro cyntaf, ac rwy'n siŵr y byddan nhw'n defnyddio'r ganolfan yn fwy nawr gyda'r sinema newydd."



"Rwy'n dwlu ar yr ardal
eistedd awyr agored.
Mae'n ychwanegiad braf
iawn ac mae'n wych fy
mod i'n gallu eistedd yma
gyda'r ci."



"Mae'r banc olaf yn y dref (Lloyds) ar fin
cau, a allai'r ganolfan roi cartref i
ganolfan fancio fel sydd yn y Neuadd
Lesiant yn Ystradgynlais?"



"Rydyn ni'n ffodus iawn i
gael rhywbeth fel hyn ar
garreg ein drws."



"Mae'n bryd i'r lle yma gael
rhywbeth, mae'n wych i
Bontardawe."

7. Argymhellion

"Mae'n hyfryd yma, lle gwydych i ddod am baned a chacen nawr; mae angen rhywbeth arnom i gyd y dyddiau hyn a byddaf yn bendant yn ôl."

Arolwg

Rydym yn argymhell ailadrodd yr arolwg ar ôl 12 mis ac yna bob 18 mis i ddwy flynedd (er mwyn osgoi syrffed ar arolygon). Un o'r agweddau mwyaf gwerthfawr ar arolwg o'r math hwn yw datblygu data hydredol dros amser, felly rydym yn argymhell cadw cwestiynau'r arolwg yr un fath, cyn belled â phosibl, er mwyn gallu cymharu'r ymatebion dros amser.

Fodd bynnag, mae lle i rai cwestiynau ychwanegol, a byddem yn awgrymu y gallai arolygon yn y dyfodol ofyn:

- O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, yn ystod y 12 mis diwethaf rydych chi wedi ymweld â'r Ganolfan:
 - Yn fwy nag o'r blaen
 - Tua'r un fath ag o'r blaen
 - Yn llai nag o'r blaen

Gallai ail gwestiwn wedyn archwilio unrhyw resymau dros newid yn amllder yr ymweliadau.

Rhwystrau

Roedd yr un rhwystr mwyaf arwyddocaol a nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg (gweler *Adroddiad Dadansoddiad Arolwg CGP*) yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus a pharcio. Er nad oes gan CCGP a thîm y Ganolfan fawr o allu i effeithio ar hyn, mae'n bwysig i CBSCNPT wybod y bydd gwella trafndiaeth gyhoeddus yn datgloi llawer o fuddion eilaidd i drigolion a'r Cyngor – trwy fwy o incwm mewn lleoliadau a weithredir gan y Cyngor.

Yr unig faes arall a nodwyd gan fwy na 30 o ymatebwyr oedd "ddim yn gwybod beth sydd ar gael" – sy'n atgoffa bod angen i sefydliadau fel CGP hyd yn oed, sydd â chylchlythyr e-bost effeithiol a sianeli cyfathrebu eraill, ailddyfeisio eu dulliau marchnata a chyfathrebu o hyd wrth i'r ffordd y mae defnyddwyr yn cael gwybodaeth newid. Fel cam cyntaf, rydym yn argymhell ymchwiliad manylach gyda grŵp ffocws bach o drigolion lleol (yn ddelfrydol cymysgedd o'r rhai sydd eisoes yn defnyddio'r ganolfan a'r rhai nad ydynt) i ddeall pa sianeli cyfathrebu fyddai'n fwyaf tebygol o hoelio eu sylw a'u hysbysu am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y Ganolfan.

Rhaglen

Datgelodd sgysiau personol a chanlyniadau'r arolwg ar-lein ychydig o broblemau gyda'r rhaglen. Mewn ymateb i'r cwestiwn "pa fathau o weithgareddau yr hoffech weld mwy

ohonynt fwyaf yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontardawe?", yr atebion mwyaf poblogaidd oedd theatr (48%), ffilm (43%) a cherddoriaeth fyw (36%) – am fod pob un ohonynt eisoes yn ymddangos yn y rhaglen, awgrymir bod y gynulleidfa'n gadarnhaol am y math o raglenni maen nhw'n eu gweld eisoes.

Argymhellwn fod timau CBSCNPT/CCGP yn ystyried bod hyn yn dangos yn glir fod y rhaglen yn gweithio'n dda i'r gynulleidfa bresennol a bod lle i dyfu drwy ychwanegu 'mwy o'r un peth' yn ogystal ag arbrofi ar raddfa fach o bryd i'w gilydd â mathau eraill o gelfyddyd a allai ddenu gwahanol gynulleidfaoedd (gan gydnabod bod y math hwn o waith yn dwyn mwy o risg ariannol). Darparodd ymatebwyr yr arolwg restr hir o weithgareddau ychwanegol y gellid eu hystyried (gweler *Adroddiad Dadansoddiad Arolwg CGP*).

Ystyriaethau Eraill

"Rwy'n edrych ymlaen at alw am wydraid o win gyda ffrindiau ryw noson"

Roedd gan ymatebwyr yr arolwg, a'r bobl y buom yn siarad â nhw wyneb yn wyneb, ystod o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau neu weithgareddau ychwanegol y dylai timau CBSCNPT a CCGP eu hystyried wrth gynllunio yn y dyfodol:

- Bydd ychwanegu'r sinema yn creu pwysau ychwanegol ar barcio yng nghanol y dref sy'n eithaf cyfyngedig ac efallai y bydd angen ei adolygu.
- Mae rhai rhannau eraill o'r adeilad (yn enwedig y grisiau a'r lifft) bellach yn edrych braidd yn hen yng ngoleuni'r buddsoddiad newydd. Dylid ystyried rhoi blaenoriaeth i rai gwelliannau ailaddurno a goleuo ysgafn.

Roedd nifer o bobl y buom yn siarad â nhw'n bersonol yn teimlo y byddai defnyddio A-fyrddau neu arwyddion allanol syml eraill ar gyfer y caffi-bar yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yn sylweddol.

8. Casgliad

Mae Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn gaffaeliad diwylliannol a chymunedol hanfodol, a'i heffaith yn estyn ymhell y tu hwnt i'w waliau. Dengys yr astudiaeth hon fod y Ganolfan yn cyfrannu'n sylweddol at les economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot, gan sbarduno gweithgarwch economaidd lleol a bod yn gonglfaen i fywyd cymunedol.

Mae'r Ganolfan yn darparu enillion economaidd sylweddol, gan gynhyrchu dros £770,000 mewn gwerth economaidd lleol mewn blwyddyn a chyflawni ROI rhagorol o 5.15. Mae hyn yn tanlinellu effeithiolrwydd buddsoddiad cyhoeddus a rôl hanfodol CGP wrth gefnogi'r economi leol, bywiogrwydd y stryd fawr, a'r ecosystem ddiwylliannol ehangach.

Yr un mor bwysig yw cyfraniadau cymdeithasol y Ganolfan. Mae CGP yn darparu mannau cynhwysol o safon lle gall pobl o bob oed a chefnidir gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol ystyrlon. Dengys tystiolaeth gan ddefnyddwyr, partneriaid a busnesau lleol welliannau cryf mewn lles, llai o ynysu cymdeithasol, ac ymdeimlad dwfn o berthyn sy'n gysylltiedig â gwaith y Ganolfan. Croesawyd y sinema a'r cyfleusterau newydd yn frwd ac maent eisoes yn gwella niferoedd ymwelwyr, partneriaethau ac ymgysylltu â'r gymuned.

Cefnogir llwyddiant y Ganolfan gan dîm staff ymroddedig a chyfraniad amhrisiadwy CCGP, y mae ei arweinyddiaeth a'i eiriolaeth wirfoddol yn cryfhau cynaliadwyedd y Ganolfan a'i chysylltiad â'r gymuned.

Wrth edrych ymlaen, mae CGP mewn sefyllfa dda i barhau i gefnogi uchelgeisiau diwylliannol ac economaidd Castell-nedd Port Talbot. Ceir cyfleoedd i ehangu gwirfoddoli, mireinio marchnata, adeiladu partneriaethau busnes, a datblygu cynulleidfaoedd ymhellach. Gyda buddsoddiad parhaus a chefnogaeth strategol, gall CGP adeiladu ar ei sylfeini cadarn a pharhau i ddarparu gwerth cymdeithasol ac economaidd eithriadol am flynyddoedd i ddod.